

CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Cynllunio
Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA
Dydd Mawrth, 1af Tachwedd, 2022, 2.00 pm

CYNGHORWYR Cynghorydd Sirol Phil Murphy (Chairman)
YN
BRESENNOL: Cynghorydd Sirol Dale Rooke (Vice Chairman)

Cynghorydd Sirol: Fay Bromfield, Jan Butler, Ben Callard,
John Crook, Tony Easson, Steven Garratt, Meirion Howells,
Su McConnel, Jayne McKenna, Maureen Powell, Sue Riley,
Ann Webb

SWYDDOGION YN BRESENNOL:

Craig O'Connor	Pennaeth Cynllunio
Philip Thomas	Rheolwr Gwasanaethau Datblygu
Andrew Jones	Development Management Area Team Manager
Amy Longford	Rheolwr Treftadaeth
Joanne Chase	Solicitor
Nicola Perry	Uwch Swyddog Democratiaeth

YMDDIHEURIADAU:

Cynghorydd Sirol Jill Bond, Emma Bryn

1. Datganiadau o Fuddiant

Eitem 8: DM/2021/00357 Darparu 120 o anheddau ar barseli B ac C2 - Rockfield Farm, Gwndy, Sir Fynwy, NP26 3EL - Datganodd y Cynghorydd Sirol Tony Easson buddiant nad oedd yn rhagfarnol, fel Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio, mewn perthynas â diddymu ac adlinio llwybr troed y gellir ymgynghori yn ei gylch.

2. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4^{ydd} Hydref 2022 fel cofnod cywir.

3. Ystyried yr adroddiadau am Geisiadau Cynllunio gan y Prif Swyddog, Cymunedau a Lle (copïau wedi eu hatodi):

4. DM/2019/01684: Newid y defnydd o dir amaethyddol i storfa B8 – Tir i'r de o Garej Bryn, B4598 Llangattock Lodge i Heol Kemeys, Penpergwm, Sir Fynwy

Gwnaethom ystyried yr adroddiad ar y cais a'r ohebiaeth hwyr cafodd eu derbyn, lle argymhellwyd eu cymeradwyo, yn amodol ar yr amodau fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad. Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Cynllunio oherwydd cais gan y cyn-aelod o'r ward, gwrthwynebiad gan y cyngor cymuned leol a gwrthwynebiadau gan bum aelwyd.

CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Cynllunio
Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA
Dydd Mawrth, 1af Tachwedd, 2022, 2.00 pm

Ar ôl ystyried adroddiad y cais, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Mae loriau ac offer yn y cae amaethyddol. Mae'r cais yn caniatáu dychwelyd i ddefnydd amaethyddol.
- Awgrymwyd argymhelliad i gyfyngu ar yr amseroedd y mae trelars yn cael mynediad i'r maes o ran goleuo.
- Gofynnwyd am gadarnhad hefyd am nifer y bobl sy'n cael eu cyflogi yn ystod digwyddiadau.
- Holwyd os yw'r llifoleuadau diogelwch yn cael ei gysgodi'n iawn o ran llygredd golau.

Ymatebodd Rheolwr yr Ardal Ddatblygu:

- Mae defnydd tir dan ystyriaeth felly nid yw'r niferoedd a gyflogir yn berthnasol i'r cais Barn y swyddogion yw ei fod yn ddefnydd priodol o dir.
- O ran defnydd hwyr yn y nos, byddai unrhyw weithgaredd sy'n gysylltiedig â defnydd storio yn cael ei reoli gan yr amod oriau gweithredu. Mae gwaith o fewn y defnydd B8 y tu allan i'r oriau hynny yn torri amodau a byddai'r swyddogaeth gorfodi cynllunio yn mynd i'r afael â hi.
- Mae'r llifoleuadau ar adeiladau presennol ac nid oes unrhyw gyfyngiadau goleuadau datblygiad ar waith. Gellir edrych ar yr agwedd hon ar wahân.

Fe'i cynigiwyd gan y Cynghorydd Sirol M. Powell ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sirol S. McConnel bod cais DM/2019/01684 yn cael ei gymeradwyo yn amodol ar yr amodau a amlinellir yn yr adroddiad.

Ar ôl cael ei roi i'r bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau canlynol:

O blaid	- 13
Yn erbyn	- 0
Ymatal	- 0

Cafodd y cynnig ei dderbyn.

Penderfynwyd y dylid cymeradwyo cais DM/2019/01684 yn amodol ar ddiwygio amod 10 fel a ganlyn: O fewn 3 mis i ddyddiad y penderfyniad hwn, rhaid cyflwyno cynllun adfer o'r cae amaethyddol cyfagos (gydag ymyl coch yng nghornel De-ddwyrain y safle fel y dangosir ar luniad graddfa 1:1250 R M Hockey) i'w gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

shown on drawing R M Hockey Scale 1:1250) shall be submitted for approval in writing by the Local Planning Authority. Bydd y cynllun yn cynnwys manylion am symud unrhyw arwyneb caled a'i dychwelyd i laswelltir, bydd hefyd yn cynnwys amserlen ar gyfer gweithredu hyn. Bydd y cynllun adfer cymeradwy yn cael ei weithredu yn unol â'r manylion a'r amserlen a gymeradwywyd.

RHESWM: Er budd amwynder gweledol, Polisi CDLI DES1.

CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Cynllunio
Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA
Dydd Mawrth, 1af Tachwedd, 2022, 2.00 pm

5. DM/2020/00762: Cais cynllunio llawn ar gyfer newid y defnydd o'r ganolfan ymwelwyr yn Llandegfedd, er mwyn caniatáu'r defnyddio'r adeilad ar gyfer cyfarfodydd, digwyddiadau ac ymestyn yr oriau agor a gafodd eu cymeradwyo fel rhan o'r caniatâd cynllunio DC/2012/00442 - Y Ganolfan Ymwelwyr, Canolfan Ymwelwyr Llandegfedd Heol Croes-gweddyn, Coed-y-paen, Sir Fynwy

Ystyriwyd yr adroddiadau ar gyfer ceisiadau DM/2020/00762 a DM/2020/00763 ynghyd a gyda gohebiaeth hwyr, a argymhellwyd i'w cymeradwyo yn amodol ar yr amodau a amlinellir yn yr adroddiad.

Mynychodd y Cynghorydd Graham Rogers, Cyngor Cymuned Llanybi'r cyfarfod gan amlinellu'r pwyntiau canlynol:

- Bydd y masnacheiddio a gynigir yn effeithio ar ddefnyddwyr y Ganolfan Chwaraeon Dŵr a gafodd ganiatâd yn wreiddiol i'r defnydd unigryw ar gyfer gweithgareddau dŵr.
- Mae'r effaith ar drigolion lleol, o ran sŵn, llygredd golau, traffig a lles cyffredinol ymwelwyr sy'n dymuno cerdded neu eistedd yn dawel fwynhau byd natur, yn ystyriaethau pwysig.
- Mae llawer o adar prin yn ymweld â'r safle; mae'r gronfa ddŵr a'r tir o'i chwmpas yn Safle Dynodedig o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Rhaid i bob corff cyhoeddus gymryd camau rhesymol i hybu cadwraeth a gwella'r rhesymau dros y SoDdGA.
- Ym Mholisi Cynllunio Cymru 11 mae rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad sy'n debygol o niweidio SoDdGA a ailadroddwyd gan Julie James AoS dros Newid yn yr Hinsawdd, sy'n cynnig bod angen cryfhau'r amddiffyniad polisi a roddir i'r SoDdGA. Ni fydd y cynigion yn gwella'r SoDdGA.
- Bydd y cynigion yn niweidio'r safle ac yn tarfu ar adar sy'n gaeafu yna. Mae'r awgrym na fydd hyn yn digwydd wedi'i seilio ar arolwg adar gaeafol sy'n ddiffygiol o ran cadernid.
- Os bydd caniatâd yn cael ei roi, awgrymir amod pellach nad oes digwyddiadau dan do yn parhau ar ôl 5pm rhwng y 1^{af} o Dachwedd a'r 28^{ain} o Chwefror er mwyn lleihau'r risg i adar sy'n gaeafu.

Amlinellodd yr Aelod Lleol ar gyfer Llanybi Fawr, sydd hefyd yn Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio, y pwyntiau canlynol:

- Annog gohirio, neu gyfeirio at Banel Dirprwyedig, ar gyfer arolygon mwy manwl i sicrhau na fydd y SoDdGA yn cael ei effeithio ac na fydd effaith niweidiol ar fywyd gwyllt.
- Dim cyfiawnhad credadwy i ymestyn oriau agor heblaw am reswm ariannol. Dim gwrthwynebiad i gynnal cyfarfodydd busnes ond gwrthwynebu swyddogaethau dan do ac awyr agored.
- Bydd cyflwyno mwy o weithgaredd dynol a cherddoriaeth uchel yn cael effaith negyddol ar fywyd gwyllt.
- Datganodd y Senedd argyfwng natur yn 2021. Bydd y cais hwn yn or-ddatblygiad o safle SoDdGA.
- Mae gan CBS Torfaen wrthwynebiad dros dro oherwydd diffyg tystiolaeth yn yr arolygon.
- Mae lonydd cefn gwlad troellog, cul i gael mynediad i'r safle heb unrhyw drafnidiaeth gyhoeddus, felly bydd cerbydau preifat a bysiau mini sy'n cyrchu swyddogaethau yn fygythiad i fywyd gwyllt (moch daear a dyfrgwn yn enwedig gyda'r hwyr neu'n gynnar yn y bore) heb unrhyw liniaru.
- Bydd niferoedd mawr o gerbydau yn cael effaith ar drigolion yn hwyr yn y nos
- Mae yna ddiffyg o arolygon adar gaeafu wedi'u cynnal.
- Pryderu bod profion sain yn amlygu newidiadau amlwg yn ymddygiad hwyaid gwyllt.

CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Cynllunio Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA Dydd Mawrth, 1af Tachwedd, 2022, 2.00 pm

- Mae sawl sefydliad sy'n cynrychioli ceidwaid yr amgylchedd wedi gwrthwynebu.
 - Cyfeiriwyd at lythyr gan Gymdeithas Trigolion Coed-y-paen a oedd yn awgrymu bod ystyriaeth yn cael ei roi i ddiwygio'r amodau, os caiff ei gymeradwyo.
1. Amodau 2 a 3: Mae'r datblygiad awgrymedig yn dechrau dim ond ar ôl i'r adroddiadau a grybwyllir yn Amod 4 gael eu cyflenwi a'u hadolygu gan yr awdurdod cynllunio. Hefyd, i ddileu'r ymadrodd "blwyddyn ddilynol".
 2. Amod 10: Gofynnir i swyddogion ymchwilio i fater sy'n parhau ac egluro sut y gall y Pwyllgor fod yn fodlon nad yw'r gorlif goleuadau wedi cael effaith andwyol ar fywyd gwyllt yn enwedig ystlumod. Nid yw amod presennol wedi cael ei orfodi.

Cyflwynwyd fideo gan Nicholas Morley, Cymdeithas Trigolion Coed-y-paen ar ran y gwrthwynebwyr i wneud y pwyntiau canlynol:

- Bydd y newidiadau arfaethedig yn niweidio'r llonyddwch a bywyd gwyllt, ac yn bygwth gweithgareddau sy'n bodoli eisoes yn y Ganolfan Ymwelwyr a Chwaraeon Dŵr
- Mae mwyafrif clir o Aelodau'r Gymdeithas Trigolion yn datgan gwrthwynebiad.
- Bydd gweithgarwch dynol ychwanegol, oriau ychwanegol gyda thraffig ychwanegol, parcio, a cherbydau nwyddau, sŵn a goleuadau ychwanegol yn effeithio ar ecoleg y safle.
- Byddai gweithgareddau masnachol yn amharu ar weithgareddau chwaraeon dŵr a mynediad cyhoeddus i'r caffi, ffynonellau gwybodaeth a'r ganolfan ffynhonnell ddŵr.
- Bydd y maes parcio yn gorlifo ar adegau prysur.
- Mae mynediad drwy lôn un trac sydd e.e. yn rhy beryglus i blant seiclo.
- Yn gwrthwynebu'r cynigion yn gryf

Ymatebodd Dylan Green, Asiant Ymgeiswyr i gefnogi'r newidiadau gyda'r pwyntiau canlynol:

- Eisoes mae'r Ganolfan Ymwelwyr yn elwa o ganiatâd cynllunio iddo gael ei ddefnyddio fel caffi a gofod arddangos, felly mae egwyddor swyddogaethau o'r fath yn y ganolfan ymwelwyr eisoes wedi'i chytuno.
- Nid yw oriau agor estynedig arfaethedig ac ehangu swyddogaethau'r Ganolfan Ymwelwyr yn newid defnydd yr adeilad yn sylfaenol felly mae'r egwyddor o ddatblygu yn cael ei ystyried yn dderbyniol.
- Gwrthwynebiadau gan ymgynghorion, yn bennaf oherwydd dynodiad SoDdGA y gronfa ddŵr. Mae Dŵr Cymru wedi cysylltu'n agos â'r Cyngor drwy gydol y cais gan lynu'n llawn at bob cais ac wedi cytuno i gynnal asesiadau pellach i liniaru effaith y datblygiad.
- Mae llawer o wrthwynebiadau cychwynnol gan ymgynghorwyr statudol wedi cael eu dileu i adlewyrchu'r asesiadau ychwanegol sydd wedi'u cyflwyno. Mae CNC yn croesawu'r gwaith arolwg adar sy'n gaeafu ac yn fodlon y gellir goresgyn y pryderon cychwynnol ac y gellir osgoi'r difrod i nodweddion y SoDdGA os gweithredir y mesurau lliniaru arfaethedig. Nid yw swyddog bioamrywiaeth y Cyngor yn cynnig unrhyw wrthwynebiadau ac fe gadarnhaodd y byddai gosod cyfyngiadau rheoli llym o ran dim gweithgareddau awyr agored yn ystod y prif dymor adar sy'n gaeafu (Tachwedd i Chwefror) yn lliniaru effaith andwyol ar nodweddion y SoDdGA.
- Nid yw'r adran Briffyrdd yn nodi nad oes unrhyw niwed i ddiogelwch y briffordd neu gapasiti ar y rhwydwaith priffyrdd lleol uniongyrchol ac mae Swyddog Iechyd yr Amgylchedd yn cytuno.
- Er bod y cais cynllunio yn ymwneud â defnydd trwy'r flwyddyn o'r adeiladau, byddai unrhyw weithgareddau ar y safle yn cyd-fynd yn bennaf ag amodau'r SoDdGA. Ni fydd digwyddiadau allanol gyda cherddoriaeth fyw neu wedi'i recordio, a bydd cerddoriaeth dan do wedi'i gyfyngu i 11pm.

CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Cynllunio Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA Dydd Mawrth, 1af Tachwedd, 2022, 2.00 pm

- O ran y newid yn yr oriau agor, mae asesiadau effaith sŵn wedi'u cynnal a daethant i'r casgliad gan fod yr eiddo preswyl agosaf dros 400m o'r safle ar ochr arall y gronfa ddŵr, bydd unrhyw sŵn sy'n cael ei gynhyrchu o'r cyfleuster yn cael effaith ddibwys.
- Mae arolygon adar sy'n gaeafu, ar yr effaith ar boblogaeth yr adar, wedi dod i'r casgliad, gyda gosod yr amodau a awgrymir, na ragwelir y bydd lefelau sŵn uwch yn cael effaith sylweddol ar helaethrwydd adar dŵr. Mae Cronfa Ddŵr Llandegfedd yn cael ei hystyried fel ased seilwaith gwyrdd i'r cyhoedd ei fwynhau sy'n clymu'r cysylltiadau hynny â Pholisi Cynllunio Cymru o ran gwneud lleoedd ac yn cyfrannu at saith nod Deddf Llesiant yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Nid yw diogelwch pobl sy'n defnyddio'r ganolfan ymwelwyr ar gyfer digwyddiadau ac ymddygiad posib yn ystyriaeth gynllunio berthnasol.

Ar ôl ystyried adroddiad y cais a'r safbwyntiau a fynegwyd, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Gofynnwyd a allai fod dau ddigwyddiad ymlaen ar yr un pryd - a fyddai efallai'n well ystyried y ceisiadau ar wahân, gan fod potensial i haneru'r effaith trwy gymeradwyo un o bosib, a gwrthod y llall.
- Gofynnwyd a yw gorlif goleuadau dros y gronfa ddŵr yn cael ei ganiatáu o dan y caniatâd cynllunio presennol, gan fod y lluniau'n edrych yn eithaf gwael ac yn gallu effeithio ar adar ac ystlumod.
- Gofynnwyd am eglurhad ar yr amser terfyn ar gyfer cerddoriaeth dan do.

Ymatebodd y Rheolwr Datblygu:

- Cadarnhaodd ei fod yn nodi 12 digwyddiad allanol ar gyfer pob cais felly 24 digwyddiad y flwyddyn. Caniateir 28 diwrnod y flwyddyn galendr i ddefnyddio tir at ddiben penodol o dan hawliau datblygu a ganiateir. Mae'r cais wedi'i gyfyngu i 24 diwrnod fesul blwyddyn galendr. Mae yna amod sy'n cyfyngu ar ddigwyddiadau cydamserol i ddau, a byddai'n rhaid i ddigwyddiadau awyr agored orffen am 5.00pm. Gall digwyddiadau dan do fynd ymlaen yn hwyrach gyda cherddoriaeth gyfyngedig i 11.00pm.
- Roedd y gorlif goleuadau a welwyd yn dod o oleuadau mewnol y Ganolfan Ymwelwyr. Bydd yr amod ar y caniatâd cynllunio gwreiddiol, a fyddai'n ceisio rheoli goleuadau allanol yn hytrach na goleuadau mewnol, yn cael ei wirio. Gellir ystyried amod newydd i geisio rheoli goleuadau allanol a mewnol er mwyn cyfyngu ar orlif goleuadau o'r adeiladau.

Eglurodd y Pennaeth Cynllunio fod gwahaniaeth barn gyda CNC, gweithwyr proffesiynol ac ecolegwyr eraill. Doedd dim gwrthwynebiad gan Swyddog Bioamrywiaeth y Cyngor. Cafodd yr aelodau eu hannog i wneud penderfyniad cytbwys yn cyfeirio at yr amodau, monitro a gwella ecolegol cadarn.

Gan barhau i ystyried adroddiad y cais a'r farn a fynegwyd, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Bydd y cynigion yn effeithio ar y safle a chymunedau cyfagos (pobl a natur)
- Mae maint y dogfennau a'r gwrthwynebiadau yn ysgubol.
- Nid oes modd anwybyddu gwrthwynebiadau gan ecolegwyr, CNC, arbenigwyr a sefydliadau bywyd gwyllt e.e. yr effaith ar adar, dyfrgwn, ystlumod, moch daear ac ati
- Mae'r amod sy'n monitro marwolaethau dyfrgwn neu foch daear wrth fynedfa'r safle yn peri gofid, ac ni fydd yn atal marwolaethau bywyd gwyllt.
- Sut fydd sbwriel yn cael ei reoli?
- Beth sy'n cael ei ystyried fel digwyddiad a faint o bobl all y lleoliadau gynnal?

CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Cynllunio Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA Dydd Mawrth, 1af Tachwedd, 2022, 2.00 pm

- A yw'r cyhoedd yn gallu cael mynediad i'r safle yn ystod digwyddiadau. Pa effaith fydd ar y briffordd ac ar ymylon os na all ymwelwyr barcio ar y safle. Os bydd digwyddiadau'n cael eu hysbysebu bydd y ffyrdd cul yn brysurach.
- Byddai cyfarfod ar y safle gyda swyddogion CBS Torfaen, CNC, yr ymgeisydd ac ecolegwyr yn cael ei groesawu, i gael gwell dealltwriaeth o'r cuddfannau a'r mathau o fywyd gwyllt.
- Ydy hwn yn lleoliad parti addas? Dim gwrthwynebiadau i gyfarfodydd a digwyddiadau ond nid lleoliad parti.
- Caniateir balconi'r Ganolfan Ymwelwyr fel estyniad o'r lleoliad tan 11 o'r gloch y nos felly gyda'r gorlif goleuadau a cherddoriaeth, mae'n debyg i ddigwyddiad allanol.
- O ran yr adroddiad adar sy'n gaeafu a bywyd gwyllt arall, holwyd os oes cynlluniau i fonitro effaith barhaus os rhoddir cymeradwyaeth.
- Ystyrid mai'r unig fantais yw i'r ymgeisydd.

Ymatebodd y Rheolwr Datblygu:

- Yn anffodus, mae dyfrgwn yn cael eu lladd ar y ffyrdd yn aml. Ni fyddai'r cynigion yn cynyddu nifer y cerbydau sy'n defnyddio'r rhwydwaith priffyrdd yn sylweddol. Mae cyfle i sefydlu llinell sylfaen o arolwg o ran marwolaethau dyfrgwn. Gellir gwneud addasiadau os yw'r duedd yn codi.
- Dylai'r maes parcio mawr ddarparu ar gyfer defnyddwyr y safle.
- Bydd sŵn yn cael ei gadw o fewn yr adeilad ac os oes sŵn pan fydd ffenestri ar agor, gall lechyd yr Amgylchedd fonitro hynny. Dŵr Cymru yw'r corff cyfrifol sydd â chyfrifoldeb corfforaethol i ymwneud â'r gymuned, i fod yn weithredwyr ystyriol a chyfrifol y safle.
- O ran adar sy'n gaeafu mae amod sy'n darparu diogelwch dim defnydd (gan gynnwys defnydd mewnol) rhwng 1 Tachwedd a 28 Chwefror, hyd nes y bydd yr awdurdod cynllunio lleol wedi cytuno ar raglen monitro adar y gaeaf gyda CNC.

Roedd y Pennaeth Cynllunio yn cyfeirio at y bywyd gwyllt ac yn pwysleisio bod angen cydbwysedd o ran polisi cynllunio gyda llythyr y Gweinidog Newid yn yr Hinsawdd ynglŷn â'r angen i ddiogelu ein SoDdGA. Mae'r defnyddiau arfaethedig wedi'u cyfyngu'n drwm. Atgoffwyd aelodau fod dau gais. Os oes pryderon am effeithiau cronrus y ddau ddatblygiad, efallai y bydd yn fwy priodol i aelodau ystyried ai dim ond un o'r ceisiadau y dylid ei ystyried yn ffafriol. Atgoffwyd yr aelodau y gallai peidio â derbyn argymhellion swyddogion, pan nad oes gwrthwynebiadau, arwain at gostau proses apêl.

Gan barhau i ystyried adroddiad y cais a'r farn a fynegwyd, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Deallwyd bod Dŵr Cymru o'r farn nad oes defnydd o adeilad y gamp ddŵr yn ddigonol ond gan ei fod mewn SoDdGA, dylid ystyried sut i'w ddefnyddio'n well i adlewyrchu ei natur arbennig.
- Awgrymodd Aelod gyfaddawd o wrthod y Ganolfan Ymwelwyr ond caniatáu'r cais ar y ganolfan chwaraeon dŵr gyda'i amodau llym. Mae'n lleihau'r effaith ar y bywyd gwyllt gan ei fod ymhellach i ffwrdd.
- Awgrymodd Aelod gohirio hyn er mwyn caniatáu i Dŵr Cymru ystyried pa gais i'w gyflwyno'n ôl.
- Mae'r Ganolfan Ymwelwyr yn agosach at y ffordd felly ar ôl iddi dywyllu mae goleuadau o gerbydau sy'n pasio. Mae gan y gronfa ddŵr ardaloedd lle gall bywyd gwyllt fodoli'n dda heb gael eu heffeithio a byddai'n bellach i ffwrdd o adar sy'n nythu.

Ar ôl cael ei roi i'r bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau canlynol:

CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Cynllunio
Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA
Dydd Mawrth, 1af Tachwedd, 2022, 2.00 pm

O blaid - 3
Yn erbyn - 11
Ymatal - 0

Cafodd y cynnig, yn seiliedig ar argymhelliad y swyddog, ei wrthod.

Penderfynwyd gwrthod cais DM/2020/00762, er mwyn ei ohirio er mwyn ei drafod.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sirol Ben Callard ac eiliwyd y Cynghorydd Sirol Jan Butler, bod y rheswm o wrthod yn seiliedig ar resymau ecolegol ond, yn unol â'r protocol mabwysiedig, byddai'r mater yn cael ei adrodd yn ôl i Bwyllgor dilynol er mwyn i'r rheswm dros wrthod cael ei drafod.

6. DM/2020/00763 Caniatâd ar gyfer newid y defnydd o'r cyfleuster chwaraeon dŵr yn Llandegfedd er mwyn caniatáu'r defnyddio'r adeilad ar gyfer cyfarfodydd, digwyddiadau ac ymestyn yr oriau agor a gafodd eu cymeradwyo fel rhan o'r caniatâd cynllunio DC/2012/00317 – Canolfan Chwaraeon Dŵr, Canolfan Chwaraeon Dŵr Llandegfedd, Heol Croes-gweddyn, Coed-y-paen

Cafodd y cais ei ystyried ynghyd â DM/2020/00762

Ar ôl cael ei roi i'r bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau canlynol:

O blaid - 2
Yn erbyn - 11
Ymatal - 0

Cafodd y cynnig, yn seiliedig ar argymhelliad y swyddog, ei wrthod.

Penderfynwyd gwrthod cais DM/2020/00762, er mwyn ei ohirio er mwyn ei drafod.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sirol Ben Callard ac eiliwyd y Cynghorydd Sirol Jan Butler, bod y rheswm o wrthod yn seiliedig ar resymau ecolegol ond, yn unol â'r protocol mabwysiedig, byddai'r mater yn cael ei adrodd yn ôl i Bwyllgor dilynol er mwyn i'r rheswm dros wrthod cael ei drafod.

7. DM/2021/00357 Darparu 120 o anheddau ar barseli B a C2 – Fferm Rockfield, Gwndy, Sir Fynwy, NP26 3EL

Datganodd y Cynghorydd Sirol Tony Easson fuddiant nad yw'n rhagfarnol, fel Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio, mewn perthynas â diddymu ac adlinio llwybr troed, y gellir ymgynghori yn ei gylch.

Fe wnaethom ystyried adroddiad y cais a'r ohebiaeth hwyr a dderbyniwyd, a argymhellwyd i'w gymeradwyo yn amodol ar yr amodau a amlinellir yn yr adroddiad, a gohirio'r mater i'r panel dirprwyedig i ddatrys y materion o sut i oresgyn mabwysiadu'r briffordd.

Amlinellodd yr Aelod Lleol dros Ddwyrain Magwyr gyda Gwndy, sydd hefyd yn Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio, y pwyntiau canlynol:

CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Cynllunio Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA Dydd Mawrth, 1af Tachwedd, 2022, 2.00 pm

- Mae'r adran Briffyrdd yn cyfeirio at effaith ffiniau priffyrdd cyhoeddus presennol Silurian Road ac Elms Road lle mae problemau heb eu datrys o ran ffiniau eiddo a materion parcio
- Sut bydd mynediad i a gadael y safle'n cael eu rheoli.
- Diffyg isadeiledd
- Mae'r datblygwyr wedi dewis cadw'r briffordd gyhoeddus gyda ffiniau priodol a darparu gwahaniad rhwng y lleiniau. Mae angen datrys hyn.
- Mae pryderon ynghylch agosrwydd arfaethedig llain 64 lle mae ystod sylweddol o Briffordd gyhoeddus rhwng y droedfordd a blaen yr annedd. Mae'n debygol y bydd y Briffordd gyhoeddus yn cael ei hymgorffori o fewn ffin y llain. Gallai cynllun y llain gael ei newid neu gall yr ymgeisydd ystyried cais i ddiddymu'r Briffordd gyhoeddus y tu allan i bob llain.

Ymatebodd yr Uwch Swyddog Rheoli Datblygu:

- Cydnabyddir y diddymu, a nodir bod y Briffordd gyhoeddus yn rhedeg ar hyd ffin flaen y lleiniau. Y prif bryder yw llain 64 sydd â'r ehangder mwyaf o Briffordd fabwysiedig o fewn yr ardd flaen.
- Y mater allweddol yw sicrhau nad oes tai na ffurf adeiledig o fewn lleoliad y Briffordd; ac nad oes.
- Does gan briffyrdd ddim gwrthwynebiad i ddiddymu'r briffordd. Rydym yn bwriadu cymryd y modd o ddatrys y mater priffyrdd i'r panel dirprwyedig.
- O ran mynediad, byddai hyn trwy'r B4245 a thrwy'r datblygiad newydd. Mae'r dyraniad hwn yn rhan o gynllun ehangach o bosibl yn cysylltu â datblygiadau sydd wedi'u cymeradwyo ar Vinegar Hill ac â Grange Road. Bydd hyn yn cael ei ystyried yn ddiweddarach.

Aeth yr Aelod Lleol dros Ddwyrain Magwyr gyda Gwndy ymlaen i ddweud:

- Mae yna faterion sydd heb eu datrys e.e. y gwrthwynebiad gan y swyddog bioamrywiaeth ar o leiaf wyth pwynt o bryder. Er enghraifft, nid oes eglurhad sut y bydd gwrychoedd coll yn cael eu hamnewid, na chwaith pa mor ddigonol y bydd y ddarpariaeth ar gyfer ystlumod ac adar. Ymatebwyd bod y sylwadau diweddaraf gan yr ecolegydd wedi dileu'r gwrthwynebiad, a'i fod nawr yn fodlon gyda'r gwelliannau arfaethedig. Cafodd hyd o wrych ei ddirodi yn y gorffennol heb unrhyw fai ar yr ymgeisydd, ond maen nhw wedi gwneud iawn drwy ailblannu gwrychoedd ar hyd a lled y safle. Cynigir gwrychoedd a phlannu gwrychoedd brodorol o amgylch y sinc.
- Mae'r gwrthwynebiad o hawliau tramwy cyhoeddus yn nodi bod modd mynd i'r afael â phryderon drwy osod yr amod yn yr adroddiad, ond mae yna bryderon eraill. Nid yw'r ymgeisydd yn cydnabod llwybr cyhoeddus 372/23 a dylid ailgyflwyno'r cynllun gan gynnwys manylion y groesfan hawl tramwy cyhoeddus sy'n gyfagos i'r safle a dylai nodi effeithiau andwyol. Ymatebwyd fod llwybr cyhoeddus sy'n rhedeg drwy'r safle. Oherwydd ei aliniad presennol byddai'n gwneud datblygiad o'r safle hwn bron yn amhosibl gan y byddai'n cymryd cyfran sylweddol o'r tir datblygadwy. Mae'r ymgeiswyr yn ymwybodol bod angen iddyn nhw wneud cais i ail-alinio'r llwybr troed. Bwriedir iddo redeg o'r man agored cyhoeddus yn y de-orllewin drwy'r safle trwy'r cyswllt canolog i gerddwyr ac yna byddai'n cwrdd â Silurian Road.
- Un pryder yw sut i sicrhau bod y llwybr troed hwnnw bob amser yn agored ac yn rhydd i'w ddefnyddio gan y cyhoedd fel y nodir. Esboniodd y Pennaeth Cynllunio ei fod yr un peth gydag unrhyw safleoedd adeiladu o ran llwybrau troed. Efallai y byddant yn cael eu dargyfeirio neu eu diogelu dros dro gan rwystrau er mwyn cynnal mynediad yn ystod y gwaith adeiladu.

CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Cynllunio Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA Dydd Mawrth, 1af Tachwedd, 2022, 2.00 pm

- Codwyd yr un ar ddeg o sylwadau ynghylch tirlunio. Ymatebwyd bod cynlluniau diwygiedig yn goresgyn y materion a godwyd ers i'r gwrthwynebiad dros dro gael ei dderbyn. Gan gyfeirio at flaen llain 64, ni chaniateir plannu o fewn y briffordd. Mae llawer o blannu coed ar y stryd yn lliniaru colli'r gwrychoedd.
- Hygyrchedd i eisteddleoedd. Ymatebwyd bod tair lle i eistedd yn ardal gyhoeddus manau agored yn y de orllewin. Gofynnodd swyddog y dirwedd iddyn nhw fod yn amlbwrpas. Byddai manau eistedd sy'n darparu mynediad i'r rhai llai Symudol yn gofyn am lwybrau a fyddai'n erydu lle agored. I ddatrys hyn mae manau eistedd ychwanegol ar hyd a lled y safle sy'n cydymffurfio â materion cydraddoldeb anabledd.
- Mae angen y cynllun rheoli traffig cyn i'r gwaith ddechrau. Ymatebwyd bod amod 8 yn nodi y byddai cynllun rheoli adeiladu yn cael ei dderbyn cyn i unrhyw waith ddechrau. Aeth y Pennaeth Cynllunio i'r afael â'r pryderon gan ddweud bod cyfarfodydd sylweddol wedi digwydd gyda chydweithwyr isadeiledd gwyrdd, tirwedd a phriffyrdd. Mae cyfaddawdu anochel ar draws y safle i gydbwysu'r holl faterion gwahanol. Mae gan y cynllun hwn ddarpariaeth tai fforddiadwy uwch na'r cyfartaledd a strydoedd sydd â choed. Mae system ddraenio gynaliadwy llawn, pyllau gwanhau a Safle o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur gwarchoddedig. Mae ardal o goetir gwarchoddedig yn y canol sy'n cael ei wella ymhellach gyda gwrychoedd a phlannu ychwanegol.

Ar ôl ystyried adroddiad y cais a'r safbwyntiau a fynegwyd, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Holwyd sut y cynhesir y tai a pham na chaiff paneli solar eu gosod ar yr holl adeiladau.
- O ran yr enwad ffyrdd arfaethedig, awgrymwyd peidio defnyddio amrywiadau o'r un enw ("Rockfield") er mwyn osgoi dryswch.

Ymatebodd yr Uwch Swyddog Rheoli Datblygu:

- Mae gwresogi'r adeiladau a'r paneli solar yn faterion rheoli adeiladau ac nid o fewn cylch gwaith y pwyllgor cynllunio ond gellir eu hystyried yn y cynllun datblygu lleol diwygiedig.
- Nid cylch gwaith y Pwyllgor Cynllunio yw enwi strydoedd ond gellir trosglwyddo'r sylwadau i'r adran berthnasol.
- Mae angen tai yn y sir a nodwyd yr isadeiledd angenrheidiol ar gyfer y bobl a fydd yn byw yn yr holl ddatblygiadau tai newydd yn y CDLI mabwysiedig a chyfraniadau ariannol a sicrhawyd trwy gytundeb Adran 106 yn ymwneud â'r caniatâd amlinellol cynharach ar gyfer y safle hwn.

Ymatebodd yr Uwch Swyddog Rheoli Datblygu:

- Mae'r angen am 25% o dai fforddiadwy wedi cael eu rhagori.
- Archwiliwyd hygyrchedd y safle yn ystod y dyraniad pan oedd y cynllun datblygu lleol yn cael ei fabwysiadu a phenderfynwyd fod hwn yn lleoliad cynaliadwy oedd â mynediad i gyfleusterau yn y cyffiniau. Yn ogystal, roedd y caniatâd amlinellol yn destun Adran 106 a roddodd gyfraniadau ariannol ar gyfer e.e. chwarae, a gwelliannau i'r rhwydwaith priffyrdd. Bydd trigolion newydd yn defnyddio'r cyfleusterau e.e. darparu cymorth i siopau, tafarndai, a busnesau lleol.

Gan barhau i ystyried adroddiad y cais, nodwyd y pwyntiau canlynol:

CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Cynllunio Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA Dydd Mawrth, 1af Tachwedd, 2022, 2.00 pm

- Mae cadw'r gwrychoedd a'r coed yn y tymor hir yn bryder. Ymatebwyd mai'r bwriad yw i'r hawl tramwy cyhoeddus gael ei fabwysiadu gan y cyngor a fyddai'n ysgwyddo cyfrifoldeb.
- Dylid gosod paneli ffotofoltäig ynni haul, pypiau gwres ffynhonnell aer a phwyntiau gwefru trydan, a dylid bwydo'r neges hon yn ôl i'r datblygwyr. Canmolodd y Pennaeth Cynllunio'r syniad hwn ond eglurodd nad yw wedi'i ymgorffori mewn polisi cynllunio cenedlaethol. Fodd bynnag, mae'r swyddog wedi trafod 84% o seilwaith gwefru trydan ac mae'r datblygwr yn cyflawni hynny fel rhan o'r cynllun felly bydd effeithlonrwydd ynni'r adeiladau hyn i safon uchel.
- Gofynnwyd a allai'r datblygwyr fynd at brynwyr i weld a fyddai ganddynt ddiddordeb mewn gosod pypiau gwres.
- Gofynnwyd a oes unrhyw broblemau gyda mabwysiadu'r ffyrdd, gan gyfeirio at yr oedi ym Kingswood Gate, Trefynwy.
- Dylid ystyried cyfleusterau chwaraeon a Chynllun Teithio Llesol. Dywedwyd bod llawer o gyfleusterau chwaraeon yn lleol i'r safle.
- O ystyried Teithio Llesol, mae darpariaethau ar gyfer llwybrau bysiau a phalmentydd eang yn y dyfodol yn cefnogi cerdded. Byddai'n dda gweld rhai llwybrau beicio pwrpasol diogel yn y dyluniad efallai fel palmant a rennir.
- Bydd y mathau o dai ar y safle yn naturiol yn gartref i deuluoedd felly mae'n braf gweld cysylltiadau â'r parc cyfagos.
- Rhaid cadw at y cynllun rheoli traffig ar gyfer y gwaith adeiladu.

Cadarnhawyd bod y ffyrdd wedi eu dylunio i fod o safon fabwysiadwy ond gall mabwysiadu fod yn destun oedi. Er mwyn darparu'r nifer angenrheidiol o anheddau, nid oedd tir ar gael ar gyfer cyfleusterau chwaraeon. Ceir maes manau agored y bwriedir ei ddefnyddio ar gyfer chwarae anffurfiol a sicrhawyd cyfraniad ariannol drwy gytundeb adran 106. Ni ystyriwyd Teithio Llesol fel rhan o'r cynllun ehangach ar gyfer y safle hwn. Er mwyn mynd i'r afael â'r elfen hon, mae nifer o gysylltiadau llwybr troed wedi'u dylunio gan ystyried symudedd cerddwyr sydd hefyd yn cysylltu â'r rhwydwaith ffyrdd a'r seilwaith presennol.

Roedd y Pennaeth Cynllunio wedi derbyn neges gan Dai Sir Fynwy y bydd pob uned oddi ar nwy, graddfa EPCA a bydd paneli ffotofoltäig gan bob un.

Wrth grynhoi, roedd yr Aelod Lleol dros Ddwyrain Magwyr gyda Gwndy yn falch bod llawer o'i bryderon wedi cael eu hystyried. Roedd o hyd â phroblem gyda'r isadeiledd ar ran y trigolion a'r ardal. Cefnogodd y cais.

Fe'i cynigiwyd gan y Cynghorydd Sirol J. Crook ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sirol A. Easson bod cais DM/2021/00357 yn cael ei gymeradwyo yn amodol ar yr amodau a amlinellir yn yr adroddiad.

Ar ôl cael ei roi i'r bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau canlynol:

O blaid	- 13
Yn erbyn	- 1
Ymatal	- 0

Cafodd y cynnig ei dderbyn.

CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Cynllunio
Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA
Dydd Mawrth, 1af Tachwedd, 2022, 2.00 pm

Penderfynwyd cymeradwyo cais DM/2021/00357 yn amodol ar yr amodau a amlinellir yn yr adroddiad ac yn amodol ar ei gyfeirio at Banel Dirprwyedig y Cyngor i egluro i) datrysiad dileu'r briffordd ar Silurian Road a 1m o lain gwasanaeth eang ar y ffordd fynediad o'r dwyrain i'r gorllewin.

8. DM/2021/02005 Diwygio'r Apêl a Ganiatawyd APP/E6840/A/17/3168486 er mwyn creu maes ychwanegol (7 i 8) gan addasu'r cynllun, dyluniad a gwelliannau ecolegol. - Tir Cyfagos ar Fferm Maerdy Uchaf, Red Hill i'r B4235, Llangeview Syr Fynwy

Gwnaethom ystyried yr adroddiad ar y cais a gohebiaeth hwyr a dderbyniwyd, a gafodd ei argymhell i'w gymeradwyo yn amodol ar yr amodau a amlinellir yn yr adroddiad, a'r amod ychwanegol i sicrhau gweithredu'r cynllun tirlunio meddal.

Amlinellodd yr Aelod lleol ar gyfer Llanybi Fawr, sydd hefyd yn Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio, y pwyntiau canlynol:

- Croesawodd y cais sy'n diwallu anghenion y cynllun datblygu lleol a'r canllawiau sipsiwn a'r teithwyr gan Lywodraeth Cymru.
- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch yr angen am dri chae ar ddeg, ac os byddai'r cae hwn yn cyfrannu at y tri ar ddeg.
- Nid oedd y gwrychoedd oedd wedi'u difrodi wedi'u hadfer ond cafodd ei gynnwys yn yr amodau.
- Roedd pryderon, a godwyd ar y wefan ceisiadau cynllunio, wedi cael eu hateb yn adroddiad y swyddog.
- Mae'r safle wedi'i gadw'n dda, wedi'i osod yn dda, ac mae i ddarparu ar gyfer aelod o'r teulu.
- Cefnogwyd y cais gydag argymhellion y swyddogion

Cadarnhaodd y Pennaeth Cynllunio fod ein hasesiad sipsiwn a theithwyr yn cadarnhau bod yn rhaid i'r awdurdod wneud darpariaeth ar gyfer tri chae ar ddeg. Byddai'r cae dan sylw yn cwrdd â rhan o'r angen hwnnw.

Fe'i cynigiwyd gan y Cynghorydd Sirol F. Bromfield ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sirol M. Powell bod cais DM/2021/02005 yn cael ei gymeradwyo yn amodol ar yr amodau a amlinellir yn yr adroddiad a'r amod ychwanegol i sicrhau gweithredu tirlunio.

Ar ôl cael ei roi i'r bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau canlynol:

O blaid	- 12
Yn erbyn	- 0
Ymatal	- 0

Cafodd y cynnig ei dderbyn.

Penderfynwyd y dylid cymeradwyo cais DM/2021/02005 yn amodol ar yr amodau fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.

CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Cynllunio
Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA
Dydd Mawrth, 1af Tachwedd, 2022, 2.00 pm

9. DM/2022/00969 Adeiladu ffrâm dur ar gyfer tynnu a chanio dŵr ffynnon – Fferm Tump, Heol Brynbuga, Llantrisant, NP15 1LU

Fe wnaethom ystyried adroddiad y cais a gafodd ei gyfeirio gan y Panel Dirprwyo a'i argymhell i'w gymeradwyo, yn amodol ar yr amodau a amlinellir yn yr adroddiad gyda'r amod ychwanegol fel y'i cyflwynir heddiw, fel a ganlyn:

- Cyn cynhyrchu dŵr ffynnon wedi'i ganio, dylai cynllun rheoli sŵn gael ei gyflwyno a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol. Dylai'r cynllun rheoli sŵn fanylu ar fesurau a fydd yn cael eu gweithredu i reoli sŵn o'r datblygiad arfaethedig, gan gynnwys oriau gweithredu, er mwyn atal effaith ar amwynder trigolion sy'n byw yn y fro. Bydd y datblygiad arfaethedig felly'n cael ei gynnal yn unol â'r cynllun rheoli sŵn am byth, oni bai y cytunir yn ysgrifenedig fel arall gan yr awdurdod cynllunio lleol. Rheswm: Diogelu amwynder eiddo cyfagos ac i sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi CDLI EP1.

Amlinellodd yr Aelod Lleol ar gyfer Llanybi Fawr, sydd hefyd yn Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio, y pwntiau canlynol:

- Croesawyd y cais i greu busnes fferm amrywiol.
- Mae dŵr ffynnon eisoes yn cael ei echdynnu a'i storio ar y safle. Does gan Gyfoeth Naturiol Cymru ddim pryderon heblaw nodi, os yw'r busnes yn cael ei ehangu, y byddai hynny'n gwarantu cais cynllunio a bydd angen trwydded hefyd.
- O ran y ffordd i'r fferm, defnyddir hyn yn aml gan HGVau i nifer o ffermydd, awgrymwyd na fyddai un HGV ychwanegol yr wythnos yn achosi effaith niweidiol.
- Croesawyd y gwaith o blannu coed ffrwythau ar gyfer y bywyd gwyllt a bioamrywiaeth ar y fferm.
- Bwriedir i'r broses ganio fod yn gynaliadwy ac yn garbon niwtral.
- Mae'r ymgeisydd wedi cydfynd â dyluniad yr adeilad a'i gadw'n debug i adeiladau presennol y fferm.
- Ychydig iawn o sŵn fydd yn cael ei gynhyrchu o'r broses ganio. Bydd yr oriau busnes o 7am i 6pm (Llun-Sadwrn)

Doedd dim siaradwyr o Gyngor Cymuned Llantrisant yn bresennol. Yn ôl disgrisiwn y Cadeirydd, siaradodd Jonathan Eadie, ar ran trigolion tri eiddo a gaiff eu heffeithio gan y cais, heb gynnwys eiddo'r ymgeiswyr.

- Mae tyllau turio'n cyflenwi'r tri eiddo ac maent wedi'u lleoli oddi ar yr Heol Ffordd, Llantrisant, sy'n ffinio â Choedwig Wentwood ac maent wedi'u hepgor o'r adroddiad.
- Mae CNC wedi asesu gofynion dŵr ar gyfer y fferm, yr anheddau presennol, a'r tai sydd wedi'u cymeradwyo, a'r gwaith canio newydd.
- Mae lechyd yr Amgylchedd eisiau ystyried lefelau sŵn y gweithrediadau arfaethedig mewn sied fetel croen sengl israddol, sydd heb ei inswleiddio. Mae sŵn sy'n deillio o ochr y dyffryn yn cael ei seinchwyddo tuag i fyny, yn groes i'r adroddiad ac nid yw'n cael ei liniaru gan lystyfiant, sydd wedi'i gilfachu yn y dyffryn. Gofynnwyd am gynllun rheoli sŵn.
- Mae'r cynnig yn groes i ddyletswydd CNC o dan Gynllun Cenedlaethol Cymru'r Dyfodol i gydbwysu anghenion dŵr presennol ac yn y dyfodol (yr amgylchedd, cymdeithas, ac economi).
- Mae echdynnu a symud o'r safle yn lleihau gwytnwch dŵr ac yn gosod straen graddol ar ffynhonnell sengl. Mae lefelau dŵr a phwysedd tyllau turio is yn bygwth hyfywedd cartrefi a busnesau presennol.
- Mae tanceri sy'n dod â dŵr o ffynonellau oddi ar y safle yn cynyddu sŵn a thraffig

CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Cynllunio Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA Dydd Mawrth, 1af Tachwedd, 2022, 2.00 pm

- Mae mentrau tebyg wedi cynyddu i weithrediad 24/7 gyda mwy o sŵn a thraffig, a chanlyniadau niweidiol eraill.
- Nid yw sŵn gweithgynhyrchu heb ei atal am 48 awr dros wythnos chwe diwrnod yr un fath â gweithgaredd amaethyddol ysbeidiol sy'n dderbyniol.
- Nid yw creu perllan yn gwrthbwysu'r effeithiau diwydiannol a'r risgiau yn faterol i rywogaethau prin a gwarchoddedig.
- Nid yw'r adroddiad yn caniatáu i'r pwyllgor gyflawni ei ddyletswydd o dan Bolisi Cynllunio Cymru (PPW11).

Mynychodd yr ymgeisydd, Mark Williams, y cyfarfod gan amlinellu'r pwyntiau canlynol:

- Fferm Deuluol ydyw gyda chostau'n rhy uchel a refeniw yn rhy isel felly â'r angen i arallgyfeirio.
- Datblygiad cynaliadwy sy'n cefnogi'r agenda hinsawdd, i'r teulu a'r gymuned ac yn cefnogi amcanion y Cyngor ei hun. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cyfeirio at arferion amaethyddol a ffermio cynaliadwy, lleol gyda gwasanaethau cyhoeddus a thrigolion yn defnyddio cynnyrch mwy lleol a thymhorol, i annog mwy o fusnesau a gyda ffocws ar arloesi yn y sector bwyd a diod.
- Mae'r sied yn cyd-fynd ag adeiladau fferm presennol a'r bwriad yw adfer y berllan gyda mwy o goed ffrwythau a allai roi blas i'r dŵr yn y dyfodol o bosib.
- Mae'r fferm yn rhan o brosiect gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnwys plannu gwrychoedd, coed a chreu coridorau a phyllau ar lan y nant. Mae'r amgylchedd yn ffocws allweddol.
- Mae lletygarwch a busnesau lleol yn awyddus i stocio'r dŵr er mwyn cefnogi sector bwyd a diod Sir Fynwy.
- Cyflenwad personol / preifat y fferm ei hun yw'r dŵr, a defnyddir dŵr o arferion ffermio - nid oes angen trwydded tynnu dŵr. Profwyd y dŵr a disgwylir y canlyniadau. Mae dŵr y ffynnon yn dod i'r wyneb yn naturiol 24 awr y dydd. Nid oes tyllau turio wedi'u cynllunio. Mae'n cael ei storio mewn tanc storio a'i gymryd drwy ddisgyrchiant i'r fferm. Os nad yw'r dŵr yn cael ei ddefnyddio, caiff ei ddychwelyd i'r nant neu'r ddaear.
- Mae cynllun busnes â chost llawn wedi ei rannu gyda swyddogion cynllunio ac mae buddsoddiad pellach sylweddol wedi'i gynllunio.

Ar ôl ystyried adroddiad y cais a'r safbwyntiau a fynegwyd, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Mae digon o bellter oddi wrth gymdogion i beidio â chael eu heffeithio gan sŵn.
- Cyflenwad dŵr: Mae gan drigolion eu cyflenwad dŵr eu hunain drwy dwll turio.
- Mae gan y Fferm 250 erw; mewn cyfnodau o law bydd cryn rediad yn debygol o fod yn fwy na'r gofynion.
- Nid yw echdynnu dŵr yn ystyriaeth gynllunio.
- Gellir cyrraedd y safle ar y briffordd rhwng Coed Gwent a Brynbuga sy'n ffordd dda i gerbydau modur ei defnyddio.
- Mae gan fynedfa'r dramwyfa ystod welededd fawr ac felly mae gwelededd da wrth fynd i mewn i'r safle a'i gadael.
- Roedd yr adroddiad yn rhagweld dim ond un HGV a thair fan fach ar y safle'r wythnos ac ni fyddai'n achosi fawr o effaith ar y briffordd na niferoedd traffig. Mae'r adran Briffordd wedi codi pryderon dim ond os oedd y safle am ehangu.
- Datblygiad allweddol isel ydyw, adeilad uchder isel ac effaith niweidiol isel.
- Bydd plannu coed yn darparu budd allyriadau carbon isel a bydd yn gwella effaith weledol yr ardal
- Bydd bioamrywiaeth yn elwa o ran bwyd, lloches a chynefinoedd i fywyd gwyllt.

CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Cynllunio Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA Dydd Mawrth, 1af Tachwedd, 2022, 2.00 pm

- Gofynnwyd am fwy o fanylion am ynni adnewyddadwy a dulliau cynaliadwy.
- Mae angen i ffermwyr arallgyfeirio ac mae angen i incwm ychwanegol ddeillio o'r tir.
- Mae'n sir wledig ac mae angen cefnogi busnesau newydd fel hyn

Ymatebodd y Rheolwr Ardal Rheoli Datblygu:

- Mae cefndir polisi yn ymwneud ag arallgyfeirio amaethyddol RE3 sydd â sawl maen prawf (tri nad yw'n berthnasol) ac mae'r cais yn bodloni'r gweddill:
 1. Mae datblygiad nad yw'n amaethyddol yn rhedeg ar y cyd yn gyflenwol i'r gweithgareddau ar y safle ar hyn o bryd
 2. Cefnogwyd gan achos busnes
 3. Yn gallu dangos bod yr holl adeiladau presennol yn cael eu defnyddio lle mae angen adeilad newydd
 4. Mae cynigion ar gyfer adeiladau newydd yn bodloni'r meini prawf yn LC1 (polisiâu tirwedd)
 5. Bwriedir torri'r adeilad i mewn i'r clawdd felly mae amod arfaethedig i ofyn am luniad Rhaniad llawn i ddangos lefel y toriad, y wal gynnal a'i adeiladwaith. Rhagwelir y bydd yn cyd-fynd â'r trefniadau presennol mewn gwaith bloc, gyda ffens pyst pren a rheiliau.

Cefnogir y cais ac mae'n cydymffurfio â pholisi.

- O ran maint, mae'r offer arfaethedig yn gallu canio 8000 o ganiau'r dydd, sy'n cyfateb i ymweliad 1 HGV a thri fan bach yr wythnos. Mae'r Swyddog Priffyrdd yn fodlon â hyn. O ran cynhyrchu a'r effaith priffyrdd, mae'r gweithredu'n cael ei ystyried yn dderbyniol.
- Mae amod i gyfyngu ar y defnydd o fewn yr adeilad yma felly os yw'r busnes yn ehangu gydag adeilad newydd, byddai angen cais cynllunio.
- Mae'r cynllun rheoli sŵn yn gofyn am bennu oriau gweithredu a chadw atynt.
- Nid yw tynnu dŵr yn rhan o ystyriaeth y cais hwn ac fe ymdrinnir â hynny trwy CNC.
- O ran bioamrywiaeth, porir y tir ac nid oes ganddo lawer o werth ecolegol. Mae gwelliannau bioamrywiaeth fel plannu coed ar gynllun y safle yn cael eu hystyried yn dderbyniol gan nad oes unrhyw wrthwynebiadau gan CNC
- Mesurau effeithlonrwydd ynni: Nid yw'r polisi yn rhagnodi lefelau effeithlonrwydd ynni. Gellir rheoli'r agwedd hon drwy reoliadau adeiladu. Mae'r ymgeiswyr wedi gwneud ymrwymiad y bydd yr adeilad yn amgylcheddol gyfeillgar.
- Eglurwyd ar y darluniau edrychiad fod yna dalennau metel gwyrdd meryw ar gyfer pob edrychiad ar yr adeilad felly pe byddai cladin pren yn cael ei ddefnyddio byddai angen ystyriaeth ar wahân fel rhan o ddiwygiad i'r cynlluniau. Byddai cynllun diwygiedig yn cael ei ystyried gan Banel Dirprwyedig.

Ymatebodd yr ymgeisydd i'r pwyntiau canlynol:

- Bydd y toriad i mewn i'r clawdd gyda'r adeiladau eraill yn un lefel unffurf.
- 8000 can y dydd yw uchafswm capasiti'r peiriannau arfaethedig y gellir eu cyflawni, erbyn e.e. Blwyddyn 3.
- Cynllun i osod paneli ffotofoltäig ar y to ar ôl dwy flynedd, hefyd cynaeafu dŵr glaw.
- Bydd pren lleol cynaliadwy yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y cladin ar flaen yr adeilad. Gyda phaneli 40mm Gwyrdd Meryw wedi'u hinswleiddio o gwmpas y tu allan

Ar ôl cael ei roi i'r bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau canlynol:

CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Cynllunio
Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA
Dydd Mawrth, 1af Tachwedd, 2022, 2.00 pm

O blaid - 14
Yn erbyn - 0
Ymatal - 0

Cafodd y cynnig ei dderbyn.

Penderfynom gymeradwyo'r cais: Mae'r ymgeisydd wedi cydfynd â dyluniad yr adeilad a'i gadw'n debyg i adeiladau presennol y fferm.

10. DM/2022/00484 Cais cynllunio llawn ar gyfer adeiladu 9 o anheddau gan gynnwys mynediad, draenio, tirlunio, y gwaith peirianeg a gwaith seilwaith - Tir yn yr Hen Dŷ'r Degwm, Heol yr Eglwys, Gwndy, NP26 3EN

Cafodd cais DM/2022/00484 ei ohirio i gyfarfod Rhagfyr 2022.

11. ER GWYBODAETH – yr Arolygiaeth Gynllunio – Penderfyniadau am Apeliadau sydd wedi eu Derbynnu

12. CAS-01509-P1Z2X3 - 2-4 Monnow Street, Trefynwy, Sir Fynwy, NP25 3EE

Cawsom benderfyniad Apeliadau Arolygiaeth Gynllunio ynglŷn â 2-4 Monnow Street, Trefynwy (cais cynllunio i newid o ddefnydd A1 (Siop Gerdd) i ganolfan gemau i oedolion). Gwrthodwyd y cais gan swyddogion dan bwerau dirprwyedig gan ddyfynnu pryderon am fywiogrwydd, atyniad a hyfywedd ein hardal siopa ganolog. Cafodd apêl ei gwneud ac nid oedd yr arolygydd yn teimlo y byddai defnydd o'r fath yn achosi niwed annerbyniol a byddai'n diogelu bywiogrwydd a, hyfywedd canol y dref ac yn cydymffurfio gydag un o'n polisiau manwerthu (RET2) yn y cynllun datblygu lleol presennol.

Nodwyd rhai unedau gwag yng Nghanol y Dref gan yr arolygydd, gan nodi y byddai'n cadw blaen siop ac nad oedd tystiolaeth na fyddai'n denu nifer o ymwelwyr.

Cafodd penderfyniad y swyddogion ei wrydroi, a chaniatáu caniatâd cynllunio.

Nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Rhaid symud y ddau garwsél yn y ffenestr yn dilyn apêl i'r Comisiwn Hapchwarae.
- Roedd Cyngor y Dref yn siomedig iawn am y penderfyniad yma ac mae wedi'i gofnodi yn y wasg leol fel penderfyniad Llywodraeth Cymru yn hytrach na bod yn un gan arolygydd annibynnol.
- Holwyd a oedd yr holl amodau wedi'u bodloni gyda'r ddogfennaeth gywir. Ymatebwyd bod cais wedi'i wneud i'r Awdurdod Cynllunio Lleol mewn perthynas ag amodau 3 a 4, ac mae ymgynghori'n mynd rhagddo gyda'r ymgynghorai perthnasol mewn perthynas â rheoli sŵn, ac ymgynghorwyd â'r cynllun gwella gyda'n hecolegwyr. Mae'r cais yn aros i gael ei ystyried ar hyn o bryd.
- Eglurwyd y gellir defnyddio'r ganolfan gan bobl dros 18 oed.